Several opportunities to diagnose me early and offer me timely treatment were missed. At the conclusion of my treatment at the end of December, the cancer cells appeared to be limited to my uterus. However, this is not reassuring. uLMS is under researched and as a result recurrence levels are high and prognosis once it has metastasized is extremely poor. It is very isolating to read about the lack of research and treatment for a condition that is likely to recur.

It is a rare cancer, but unfortunately the consequences are catastrophic. The current approach to diagnosing this condition always feels though it focuses on 'most likely; and 'best case' scenarios, to the extent that indicators of seriousness that should have set alarm bells ringing were ignored or weren't understood as significant.

I have had two major surgeries in 3 months, I am no longer able to have children, I am likely to experience early menopause and need to deal with the trauma of the last few months. I have taken significant amounts of time off work, and this will be ongoing as I am on a regime of a scan, x-ray and consultant appointment every three months for the next two years. At the two year point my scans will be done on a 6-monthly basis. I have no peace of mind and the constant looming of check-ups, means I have to plan my life accordingly and try to avoid

‘scan-xiety’. I have been reassured that I will be treated with priority due to the nature of the cancer and the care provided to me by the gynae-oncology nurses and the consultant team has been personal and empathetic. I can’t criticise their professionalism at all. However, due to the enormous pressure the Welsh NHS is under, I am still struggling to contact staff at University Hospital Wales to arrange appointments. I have called for results of the histology report on my cancer, and even though the original procedure was on the 30th September I do not know whether my cancer is hormone responsive - which would entail another procedure.

I live with the knowledge that due to the length of time I have had this condition and the speed at which the Welsh NHS is currently operating, my chances of dying of this cancer are high. It is hard not to feel completely isolated, as well as having my trust in the process eroded. I spend a great deal of my time thinking about the very real prospect that even with the radical surgery I have undergone at 40, the probability of me dying of this cancer still remains high.

Recommendations

Recommendations for further research and service provision can be found via charities like Sarcoma UK and Cancer Research UK. I would recommend reading their policy positions, as it will be systemic and focus on wider experiences. As a person experiencing this cancer in Wales my recommendations would include.

- Improvement of early diagnosis through primary care education; early diagnosis is key to better outcomes.
- Increased public awareness of uLMS in order that people present with symptoms much earlier.
- National Standards for Sarcoma Services were published in 2009, I have been unable to find a copy as all online links are broken, including in the Service Specification CP149 Soft Tissue Sarcoma. These should be reviewed and updated with current research.
- Diagnosis of uLMS must be improved. The risks of assuming a fibroid is benign are catastrophic. All fibroid surgery should be treated with urgency if outcomes are to be improved. In order to achieve a solution, proportionate to the risk, research into pre-operative diagnosis should be funded and prioritised as a matter of urgency.
- Resources should be channelled towards general research into sarcoma. Diagnosis rates are increasing and with little understanding of the causes, it is hard to ensure rates do not continue to increase.
- There should be a cultural shift within the NHS (and wider society) into how women are treated when they present with symptoms. I was dismissed on more occasions than I care to remember. I began to refer to it as ‘medical gaslighting’ My worst fears were eventually realised. My experience since then has not improved and there has been little contrition or a process to educate and reform practice. My GP has yet to get in touch despite my serious diagnosis in November. Alongside a better response to women and their health concerns, primary care must have better mechanisms for learning from mistakes, which involve the patient.

I am pleased to see the attention of the committee being turned towards gynaecological cancers, it has been helpful to channel some of my experiences into this response. I hope as a result there are improvements for people experiencing the impact of gynaecological cancers in Wales.

Yours faithfully.

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Canserau gynaecolegol

This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on Gynaecological Cancers

GC 04

Ymateb gan: | Response from: Coleg Brenhinol Meddygon Teulu | Royal College of General Practitioners

---

Gynaecological Cancer Consultation Response
RCGP Cymru Wales

In response to the Senedd's request for comment regarding gynaecological cancers, RCGP Cymru Wales has consulted with its GP members and patient representatives to ascertain the present position on this topic in general practice. The issues raised related to awareness, screening, women's health, onward referrals, and the impact of COVID-19.

1. Awareness

Both patient representatives and GP members agree that awareness on the topic of gynaecological cancer is not at desired levels. Patients in particular note that they have access to information regarding cervical cancer but are not aware of any symptoms of other cancers such as ovarian cancer. GPs also do not feel patients presenting with symptoms know that they may be symptoms of these cancers.

2. Screening programmes

The prevention strategy with which GPs have greatest involvement with is the cervical smear. GP members note there is confusion within the public regarding who is entitled to a smear test how often. RCGP Cymru Wales is aware that some members of the public believe a smear test is only for people with symptoms, while the differences between the age of patients who qualify for smears and the regularity of the tests between the four nations means that well-meaning publicity often adds to the confusion.

GPs report an anecdotal decline in women booking themselves in for smear tests. They report reasons ranging from embarrassment, busy lifestyles and cultural beliefs.

RCGP Cymru Wales is aware of public campaigns to normalise the discussion and process surrounding a smear test however, the risks are not highly publicised. Since the introduction of HPV vaccine and the waning of the 'Jade Goody effect' there is a concern that cervical cancer is not as prominent as it could be in the public perception[1]. A Public Health Wales study in 2014 reported that women who have received the HPV vaccine are less likely to attend a screening[2], it seems further research into the uptake in Wales is needed.

3. Women's health

Patients also raise concerns that, while much has been done to promote women's health, particular training regarding all aspects is still needed to ensure that health professionals

[1] Sky News, 2019, Cervical Smear Campaign Launched: https://news.sky.com/story/cervical-smear-campaign-launched-as-jade-goody-effect-wears-off

[2] Public Health Wales, Study of the HPV Immunisation 2014, https://ncphwr.org.uk/portfolio/hpv-immunisation-wales/

understand that presentation of serious conditions in women. They draw parallels with discoveries regarding late diagnosis of endometriosis, which has been recently publicised. [3]

4. Referral to secondary care

When asked about referrals for gynaecological cancer symptoms, GPs note that referral times vary hugely between geographic locations and are often thought to be less urgent than other, more widely publicised cancers such as breast and lung.

5. Impact of COVID-19

GPs also raise the impact of COVID-19 on both the screening and referral process, noting the backlog. One GP states that prior to COVID-19 women presenting with post-menopausal would be seen in a matter of weeks, while now that wait is likely to take months. Our members also note that patients are now out the habit of booking routine screenings due to the postponement of them during COVID-19.

[3] NIHR, Why do women feel unheard, November 2022: https://evidence.nihr.ac.uk/collection/womens-health-why-women-feel-unheard/

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care Committee

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

19 Ebrill 2023

Annwyl Eluned

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn ein cyfarfodydd ddydd Iau 30 Mawrth, trafododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus faterion yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac unrhyw gamau posibl y gallai'r Pwyllgor eu cymryd. Er bod y sefyllfa yn peri pryder i'r ddau Bwyllgor, rydym am sicrhau y bydd unrhyw gamau y bydd y Pwyllgorau'n eu cymryd yn amserol ac yn ychwanegu gwerth. Rydym yn awyddus i osgoi dyblygu gwaith, a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd lle bo'n briodol i sicrhau hynny. Rydym hefyd yn ymwybodol o effaith y sefyllfa bresennol ar y staff a'r bwrdd iechyd.

Rydym wedi cytuno i ailystyried y mater hwn, ac unrhyw gamau y gallai'r Pwyllgor eu cymryd, yn ein cyfarfod cydamserol ar 25 Mai. Er mwyn hwyluso'n trafodaethau, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe baech yn ymateb erbyn 12 Mai 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Atodiad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus pan drafodwyd y sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y materion isod, a hynny erbyn 12 Mai 2023.

1. Gwybodaeth ychwanegol am y Tîm Ymyrraeth a Chymorth gan gynnwys ei benodiad, ei gylch gorchwyl, ei ddulliau o weithio, ei ymrwymiad o ran amser, ac ei berthynas â Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth newydd y GIG.

2. Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a bennwyd o dan y drefn mesurau arbennig newydd a gyflwynwyd yn y Bwrdd Iechyd.

3. Amserlen ar gyfer y gwaith o geisio gwella atebolrwydd, yn ogystal â'r gwaith o ddiwygio a diweddaru'r fframwaith ymyrryd ac uwchgyfeirio.

Mewn perthynas â phwyntiau 2. a 3. uchod, byddai'r Pwyllgorau'n ddiolchgar pe gallech ein diweddaru bob chwe mis am y cynnydd a wneir yn y meysydd hyn.

Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care
Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

21 Ebrill 2023

Annwyl Julie

Polisi rhyddhau o'r ysbyty Cymru gyfan a'r canllawiau cysylltiedig

Roedd argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 yn gofyn am wybodaeth am ba mor hir y disgwylir i'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ar 30 Rhagfyr 2022, sy'n datgan y gellir rhyddhau cleifion tra'n aros am asesiad gofal cymdeithasol neu heb fod pecyn gofal yn ei le, barhau mewn grym.

Yn eich ymateb i'n hargymhelliad, egluroch chi fod y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022 "yn cefnogi'r canllawiau presennol ar ryddhau cleifion o'r ysbyty sydd eisoes ar gael yn y system", ac felly y byddai'n "parhau ar waith hyd y gellir rhagweld".

Rydym yn nodi bod y canllawiau 'Cyflawni'r canlyniadau a'r profiad gorau i bobl yn yr ysbyty', sy'n rhan o'r Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, yn nodi:

> *"Mae polisi rhyddhau Cymru gyfan yn cael ei ddiweddaru (2022) a dylid ei ddefnyddio i ategu'r broses o drosglwyddo cleifion pan fyddant wedi'u hoptimeiddio'n glinigol ac y gallant symud i le gofal mwy addas. Dylai cam nesaf eu gofal gael ei nodi gan y llwybr D2RA y maent arno.*
>
> *Bydd dau ganllaw newydd ar gael a fydd yn ategu'r fframwaith hwn ac yn dod yn rhan o'r polisi rhyddhau diwygiedig:*

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- *Canllawiau ar gyfer Rôl Aseswr Dibynadwy*
- *Canllawiau Rhyddhau Cleifion Anfodlon."*

Byddem yn ddiolchgar pe gallech wneud y canlynol:

1. Darparu wybodaeth ynghylch pryd y bydd y polisi Cymru gyfan wedi'i ddiweddaru, a phryd y caiff y canllawiau newydd ynghylch Rôl Aseswr Dibynadwy a Rhyddhau Cleifion Anfodlon eu cyhoeddi.
2. Ymrwymo i ddarparu copïau o bob un o'r tair dogfen i ni pan fyddant ar gael.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 9 Mehefin 2023.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
—
Health and Social Care Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

28 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2023, a'r cyfle i roi sylwadau ar y dogfennau cyllidebol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio gwaith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24.

Buom yn trafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 30 Mawrth 2023, a gobeithiwn y bydd y myfyrdodau ar ein profiad o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-34 a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn o gymorth wrth fwrw ymlaen â gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

Rhowch wybod i ni os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: barn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddogfennau Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog

Y cefndir

1. Cynhaliwyd gwaith craffu'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 ar 11 Ionawr 2023. Yn unol â'n harfer arferol, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol ar 28 Hydref 2022, yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau oedd 14 Rhagfyr 2022. Cawsom y dogfennau terfynol yn Saesneg ar 21 Rhagfyr 2022. Ni chafwyd y dogfennau Cymraeg tan 9 Ionawr 2023 (roedd ein papurau cyfarfod wedi'u cyhoeddi ar 6 Ionawr 2023). Hefyd, ar 9 Ionawr 2023, cawsom gais i ddisodli rhan o'r cyflwyniad Saesneg gwreiddiol (a oedd eisoes wedi'i gyhoeddi) gyda fersiwn ddiwygiedig.

Amseroldeb tystiolaeth

2. Mae angen derbyn papurau'n ddwyieithog pan ofynnir amdanynt, gyda'r holl atodiadau perthnasol. Dylent hefyd fod yn gywir ac ni ddylid bod angen eu disodli gan fersiynau wedi'u diweddaru neu eu diwygio. Roedd cael tystiolaeth wythnos yn hwyr, a dim ond ychydig cyn gwyliau'r Nadolig, wedi lleihau'r amser a oedd ar gael i'r Aelodau a'n swyddogion ystyried y dystiolaeth a pharatoi ar gyfer y sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r Gweinidogion.

Ffocws y dystiolaeth

3. Hoffai'r Pwyllgor pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi y refeniw, a'r negeseuon allweddol i ni; a sut mae'r dyraniadau yn adlewyrchu'r negeseuon hynny; y canlyniadau y maent yn eu disgwyl a sut y byddant yn mesur y canlyniadau hynny. Er ein bod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ymlaen llaw i nodi rhai materion, roedd y dystiolaeth ysgrifenedig yn hir iawn ac nid oedd yn cynnwys manylion penodol.

4. Yn y dyfodol, hoffem gael crynodeb o'r prif negeseuon allweddol, o'r newidiadau allweddol ac arwyddocaol (e.e. cynnydd chwyddiant o ran byrddau iechyd, cynnydd o ran cyllid gofal cymdeithasol), pwysau allweddol, amcanion neu flaenoriaethau newydd allweddol, a newidiadau o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dylai'r prif gorff fod wedi'i olygu'n dda a chanolbwyntio'n benodol. Dylai ddangos yn union beth sy'n cael ei wario, ym mha feysydd, yr amserlen ar gyfer y gwariant, a pha effaith/canlyniadau a sicrheir o ran y gwariant hwnnw. Ar gyfer cynlluniau cyfalaf, dylai fod yn benodol ynghylch pa gynlluniau sy'n cael eu hariannu, a beth fydd yn cael ei brynu ac erbyn pryd. Mae diffyg manylion gronynnog yn y dystiolaeth eleni, ac mewn blynyddoedd blaenorol.

5. Rhoddir cyfran sylweddol o'r cyllid iechyd yn uniongyrchol i'r byrddau iechyd. Mae angen i'r Pwyllgor gael gwybodaeth am flaenoriaethau'r Gweinidogion ac unrhyw gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â'r cyllid hwn, a hynny yn llawer cynharach. Ni allwn weld fod unrhyw reswm pam na

ddylem gael y wybodaeth hon yr un amser â'r byrddau iechyd, ac o leiaf ymhell cyn unrhyw sesiynau tystiolaeth lafar.

Anghydraddoldebau iechyd a gwariant ataliol

6. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach yn naratif ei chyllideb a'i dogfennau o ran sut mae gwariant mewn DELau eraill yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Dylai hyn fod yn glir o ran negeseuon, ac o ran arian, canlyniadau a chamau a nodir.

7. Mae hyn hefyd yn wir o ran gwariant ataliol.

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor:

8. Mae angen i ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ddod i law ymhellach ymlaen llaw i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn er mwyn galluogi Aelodau a rhanddeiliaid i'w ystyried cyn cymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio ar y gyllideb. Eleni, cawsom y fersiwn Saesneg y noson cyn y ddadl, a'r fersiwn Gymraeg a'r llythyr eglurhaol ychydig oriau cyn i'r ddadl gael ei chynnal.

Gwybodaeth am y gyllideb derfynol

9. Pan fydd y gyllideb derfynol yn cael ei gosod, dylai gwybodaeth glir am yr hyn sydd wedi newid ers y gyllideb ddrafft gydfynd â hi. Dylai Gweinidogion ysgrifennu at Bwyllgorau sydd wedi gwneud gwaith craffu ar y gyllideb, naill ai i gadarnhau bod dyraniadau'r gyllideb ddrafft wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb derfynol, neu i nodi ble y bu newidiadau.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

25 Ebrill 2023

Annwyl Russell

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Mawrth ynghylch camau dilynol y Pwyllgor i'w ymchwiliad i endosgopi.

Mae cynaliadwyedd ac achrediad proffesiynol gwasanaethau endosgopi yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Fel y nodais yn fy ymateb blaenorol i'r Pwyllgor ar y mater hwn, bu tarfu sylweddol ar y rhaglen waith genedlaethol i gefnogi sefydliadau'r GIG. Er hynny, rydym yn parhau i weithio gyda'r GIG i wneud cynnydd ac i gysoni'r gwaith hwn â'r Bwrdd Diagnostig. Yn gynharach heddiw, cyhoeddais y Strategaeth Adfer a Thrawsnewid Diagnosteg sy'n ceisio gwella mynediad at brofion diagnostig a chefnogi datblygiad ein gweithlu diagnostig. Bydd y Strategaeth newydd hon yn adeiladu ar waith y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol, ac yn mewngorffori'r gwaith hwn, gan roi cyfleoedd i gyd-fynd â datblygiadau ehangach hanfodol fel y ganolfan ddiagnostig ranbarthol arfaethedig ar gyfer de-ddwyrain Cymru.

Rwyf wedi ymateb i argymhellion eich Pwyllgor isod.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sefydlu Gweithrediaeth y GIG. Dylai hyn gynnwys manylion ei threfniadau llywodraethu, ei rôl a'i chyfrifoldebau mewn perthynas â dwyn byrddau iechyd i gyfrif a sicrhau bod newid yn cael ei weithredu, a'r amserlenni ar gyfer ymgymryd â'r rolau a'r cyfrifoldebau hynny.

Fel y byddwch yn gwybod, daeth Gweithrediaeth GIG Cymru i rym o 1 Ebrill 2023: Hafan – Gweithrediaeth GIG Cymru. Mae'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol yn rhan o'r Rhaglen Diagnosteg Genedlaethol gyffredinol a bydd y trefniadau llywodraethu rhwng rhaglenni cenedlaethol a Gweithrediaeth GIG Cymru yn cael eu penderfynu gan yr uwch dîm arwain.

Gan weithio ar ran Llywodraeth Cymru, swyddogaeth Gweithrediaeth GIG Cymru yw sicrhau arweinyddiaeth gryf a chyfeiriad strategol, a galluogi, cefnogi a, lle bo angen,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymyrryd i sicrhau bod blaenoriaethau a safonau cenedlaethol yn cael eu cyflawni a diogelu a gwella ansawdd a diogelwch gofal. Bydd Gweithrediaeth GIG Cymru yn rhoi capasiti ychwanegol ar lefel genedlaethol i oruchwylio a chefnogi darparu'r blaenoriaethau hyn drwy ddod â Chydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, Uned Gyflawni GIG Cymru, Uned Cyflawni Ariannol GIG Cymru a Gwelliant Cymru ynghyd. Bydd Gweithrediaeth GIG Cymru yn gweithredu o dan uwch dîm arweinyddiaeth penodedig ac yn parhau i gyflawni nifer o'r swyddogaethau a oedd yn cael eu cyflawni'n wreiddiol gan y sefydliadau hyn ond mewn ffordd fwy effeithiol, effeithlon a chydweithredol. Bydd Gweithrediaeth GIG Cymru yn:

- Cryfhau arweinyddiaeth a chefnogaeth genedlaethol i sicrhau gwell ansawdd
- Darparu cyfeiriad mwy canolog i sicrhau dull cyson a theg o gynllunio yn seiliedig ar ganlyniadau yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.
- Galluogi trefniadau rheoli perfformiad cryfach, gan gynnwys y gallu i herio a chefnogi sefydliadau nad ydynt yn gweithredu yn ôl y disgwyl.
- Ysgogi ac ymateb i'r datblygiadau mewn technoleg a gwyddorau meddygol i sicrhau GIG modern yng Nghymru.

Ni fydd sefydlu Gweithrediaeth GIG Cymru yn newid mecanweithiau atebolrwydd statudol. Mae holl gyrff y GIG eisoes yn uniongyrchol atebol i Weinidogion, a Llywodraeth Cymru, a bydd hyn yn parhau. Bydd Gweinidogion yn parhau i osod blaenoriaethau, targedau a mesurau canlyniadau ar gyfer y GIG ar ffurf Fframwaith Cynllunio'r GIG. Mae hwn wedi'i drosi gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru yn Fandad i Weithrediaeth GIG Cymru, gan amlinellu ei rôl, ffyrdd o weithio a swyddogaethau o ran cyflawni'r disgwyliadau a nodwyd mewn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol.

Yn ystod 2023, y bwriad yw adeiladu ar gam cyntaf ei sefydlu a chryfhau'r trefniant hwn drwy gynnwys swyddogaethau ychwanegol fel rhan o raglen cam 2. Bydd Ebrill 2023 - Mawrth 2024 yn flwyddyn bontio ar gyfer Gweithrediaeth GIG Cymru ac rydym yn derbyn y bydd rhai elfennau o'i ddatblygiad a'i effeithiolrwydd llawn yn parhau i esblygu dros amser wrth iddo aeddfedu a setlo i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni erbyn mis Gorffennaf 2023 am ddatblygu academi endosgopi clinigol, yn benodol er mwyn nodi a yw'r gwaith ar y trywydd iawn i fodloni'r amserlenni a ragwelwyd yng nghynllun gwella gwasanaethau canser ar gyfer GIG Cymru 2023-2026.

Mae byrddau iechyd yn y de-ddwyrain yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer cyfleusterau endosgopi sy'n gallu darparu ar gyfer y galw cynyddol ar y gwasanaeth clinigol hwn. Mae trafodaethau ar y gweill gyda chydweithwyr clinigol, gan gynnwys Uwchgynhadledd Endosgopi Clinigol a drefnwyd ar gyfer 21 Ebrill i ystyried y model mwyaf effeithiol ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ystyried sut y gellir sefydlu model Academi Hyfforddiant Sgiliau Clinigol ar gyfer endosgopi i gynorthwyo gyda recriwtio a chadw endoscopyddion clinigol.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau fydd yn cael eu cymryd, a phryd, i symud gwasanaethau endosgopi o'r sefyllfa bresennol, sy'n dibynnu ar fesurau tymor byr fel contractio gwaith ar sail mewnol ac ar sail allanol i ymateb i'r galw, ac i ryddhau arian i fuddsoddi mewn gweithlu mwy cynaliadwy a datrysiadau o ran capasiti.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda byrddau iechyd o ran datblygu eu capasiti endosgopi. Mae'r rhaglen endosgopi genedlaethol wedi cefnogi byrddau iechyd i ddatblygu eu modelu o ran y galw a'r capasiti. Mae'r byrddau iechyd yn cynllunio eu gwasanaethau mewn ymateb i hyn, ac rydym yn adolygu eu cynlluniau lleol a rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o atebion, megis cynllunio swyddi diwygiedig, recriwtio ychwanegol, hyfforddi staff presennol, a datblygu cyfleusterau newydd. Hoffwn dynnu sylw at fuddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn theatrau endosgopi newydd ac wedi'u hadnewyddu yng Nghaerdydd a Chasnewydd fel enghraifft o gymorth Llywodraeth Cymru, ond bydd yn cymryd llawer o flynyddoedd i gyrff y GIG recriwtio, hyfforddi a defnyddio'r capasiti gweithlu ychwanegol angenrheidiol.

Bydd y mwyafrif o fyrddau iechyd yn parhau i ddibynnu ar atebion staffio nad ydynt yn rhai craidd i ddiwallu angen cyffredinol eu poblogaeth. Mae'n debygol y bydd hyn yn parhau ochr yn ochr â datblygu capasiti craidd ychwanegol am gryn amser, a bydd hyn yn dibynnu ar ba mor gyflym y gellir recriwtio neu hyfforddi staff – yn ogystal â newidiadau yng nghydbwysedd y galw/capasiti yn y dyfodol a'r rhagolygon ariannol y dyfodol ar gyfer GIG Cymru. Y bwriad yw lleihau dibynnu gymaint â phosibl ar gyflenwyr allanol ac i ryw raddau ar drefnu yn fewnol a mentrau rhestri aros. Er hynny, bydd angen defnydd mwy cyfyngedig o'r gallu hwn bob amser i fodloni ymchwydd yn y galw neu i gyflymu'r gwaith o leihau'r ôl-groniad.

Y bwriad yw datblygu capasiti'r gwasanaeth craidd i'r pwynt lle gall hyn fodloni'r rhan fwyaf o'r galw rheolaidd. Fel rhan o hyn, mae'r rhaglen endosgopi genedlaethol yn cydweithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i hyfforddi carfannau o endosgopyddion clinigol. Hyd yn hyn mae AaGIC wedi darparu tair carfan lwyddiannus ac wyth endosgopydd clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae tri endosgopydd clinigol yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd, gyda charfan bellach i ddechrau ym mis Medi. Mae'r rhaglen endosgopi genedlaethol hefyd wedi lansio ymgyrch ledled y DU i ddenu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i weithio ym maes endosgopi yng Nghymru. Mae'r Rhaglen wrthi'n cynnal arolwg cadw o holl staff endosgopi GIG Cymru ar hyn o bryd i gael gwell dealltwriaeth o'u profiad yn y gweithle ac i ganfod y rhesymau dros ddewis rhai i adael neu i aros yn y proffesiwn. Bydd y Rhaglen yn cydweithio'n agos ag AaGIC i ddatblygu cynllun cadw penodol i endosgopi er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir yn yr arolwg. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r potensial ar gyfer cyflwyno academi endosgopi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu'r dyfodol yn gyflymach.

Argymhelliad: Yn ei hymateb i'r llythyr hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith sy'n cael ei wneud i ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amrywiadau neu bolisïau adnoddau dynol gor-gyfyngol a allai atal staff y GIG rhag gweithio neu hyfforddi mewn bwrdd iechyd heblaw'r bwrdd iechyd y maent wedi'i leoli ynddo. Os oes angen mwy o amser i ymateb, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi'r wybodaeth hon erbyn mis Gorffennaf 2023.

Yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r rhwystrau sydd ar hyn o bryd yn atal staff rhag cael eu defnyddio yn hyblyg ar draws rhwystrau sefydliadol. Yn benodol, rydym wedi nodi camau i gefnogi Cydwasanaethau GIG Cymru i ddatblygu dull 'pasbort' er mwyn galluogi'r gweithlu i gael ei defnyddio ar draws sefydliadau GIG Cymru yn fwy hyblyg. Rydym hefyd yn ymrwymo yn y cynllun i gefnogi'r angen i gynllunio a darparu gwasanaethau yn rhanbarthol wrth i fodelau gwasanaeth newydd a chynaliadwy gael eu datblygu.

Argymhelliad: Yn yr ymateb i'r llythyr hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd, a phryd, i arwain, annog a hwyluso'r defnydd o dechnolegau arloesol a ffyrdd o weithio mewn gwasanaethau endosgopi yng Nghymru.

Mae arloesi mewn gofal endosgopig yn elfen bwysig ar wella gwasanaethau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwasanaethau endosgopi wedi integreiddio llawer o arloesiadau megis delweddu gwell, hyblygrwydd, goleuadau, a galluoedd megis echdoriad endosgopig sy'n creu archoll mor fach â phosibl yn lle echdoriad llawfeddygol. Mae'n bwysig ystyried gwerthuso dyfeisiau newydd a thechnegau sy'n esblygu. Mae angen cydbwyso hyn ag anghenion y cleifion a'r boblogaeth a thystiolaeth am eu diogelwch a'u heffeithiolrwydd clinigol, a chost-effeithiolrwydd o'u cymharu â'r technegau presennol. Ar hyn o bryd mae gan dimau clinigol adnoddau, capasiti, ac amser cyfyngedig i brofi a gwerthuso technegau newydd, ac felly mae angen ymdrechion cydgysylltiedig i gefnogi gwerthuso ac integreiddio arloesedd.

Mae arloesi'n cynnwys cyfuniad o synthesis tystiolaeth genedlaethol, arweiniad a chefnogaeth, a gwerthuso lleol ac ymarferoldeb gweithredu. Mae'r rhaglen endosgopi genedlaethol yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau addas i'r diben, cynaliadwy, ac achrededig. Mae arloesi mewn technegau yn berthnasol i'r agenda hon gan y gallai technegau newydd, ar gyfer rhai cleifion â gofynion penodol, fod yn llawer gwell neu'n llai dwys i'w darparu o ran adnoddau. Mae'r rhaglen wedi ystyried nifer o arloesiadau megis endosgopi capsiwl colon ac yn gweithio gyda nifer o fyrddau iechyd i brofi cymhwyso'r dechneg hon. Mae rhaglenni cenedlaethol perthynol, megis canser, hefyd wedi cefnogi profi technegau newydd megis endosgopi drwy'r trwyn. Bydd sefydliadau cenedlaethol yn parhau i gefnogi mabwysiadu technolegau sydd wedi profi eu gwerth.

Er hynny, cyfrifoldeb sefydliadau'r GIG yw penderfynu pa dechnegau a dyfeisiau sy'n cyflawni'r gofynion ar gyfer eu poblogaethau lleol yn y ffordd orau, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â safonau gofal cenedlaethol.

Argymhelliad: Yn ei hymateb i'r llythyr hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am y gofal cofleidiol a'r cymorth (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl) sydd ar gael i bobl sydd wedi cael diagnosis o gyflyrau genetig fel Syndrom Lynch yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y caiff gofal a chymorth o'r fath eu teilwra i anghenion grwpiau penodol, er enghraifft menywod o oedran cael plant, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, neu bobl anabl.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn comisiynu profion Lynch fel y disgrifiwyd yn ei Sefyllfa Bolisi Profi Genomig PP184. Mae'r prawf genomig hwn

wedi'i gomisiynu gan Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru gyfan (AWMGS). Mae AWMGS yn darparu gwasanaethau genomig ar gyfer poblogaeth Cymru sy'n cael ei chynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae tua 2,000 o samplau'r flwyddyn yn dod i law oddi wrth bob un o'r saith bwrdd iechyd. Mae AWMGS wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus ledled Cymru, gan sicrhau bod cleifion yng Nghymru'n gallu cael mynediad at brofion a argymhellir, yn deg ar draws Cymru. Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd ddarparu gofal cyfannol sy'n gweddu i'r unigolyn.

Mae AWMGS yn cwnsela ac yn cefnogi pob person sy'n cael ei brofi am syndrom Lynch, cyn profi, ac wedi hynny os cadarnheir bod ganddynt y cyflwr. Nod y gwasanaeth yw cefnogi cleifion i ddeall eu hopsiynau a phenderfynu sut i symud ymlaen. Bydd hyn yn ystyried amgylchiadau unigol pob person ac yn cynnwys unrhyw benderfyniadau y gall fod angen eu gwneud ynghylch opsiynau atgenhedlu, sgrinio neu wyliadwriaeth, triniaeth, a chyffuriau atal canser.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eitem 4.5

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

25 Ebrill 2023

Annwyl Russell

Ysgrifennaf i hysbysu’r Pwyllgor fod Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud a gosod Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) (Ymadael â’r UE) 2023 ("y Rheoliadau HIA”).

Rwyf wedi derbyn llythyr oddi wrth Will Quince AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd a Gofal Eilaidd ynglŷn â’r Rheoliadau HIA, y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu gosod yng ngwanwyn 2023. At hynny, mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi dweud mai eu bwriad yw gosod y Rheoliadau ddechrau mis Mehefin.

Bydd y Rheoliadau HIA yn ymestyn i'r DU gyfan. Byddant yn cael eu gwneud drwy arfer pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 ("y Ddeddf") (a arferai gael ei galw yn Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ond sy’n cael ei hailenwi gan adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022). Pan ddaw adran 162 i rym, bydd yn peri i’r prif bŵer galluogi ar gyfer y Rheoliadau HIA gychwyn. Bydd y prif bŵer galluogi yn cael ei gynnwys yn adran 2 o'r Ddeddf. O dan adran 2A o'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth benodol drwy reoliadau sy'n cyfateb i'r hyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei wneud drwy ddefnyddio adran 2, ond nid yr holl ddarpariaeth a dim ond pan fo'r ddarpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig.

Bydd y Rheoliadau HIA yn disodli fframwaith cyfreithiol y DU ar gyfer gweithredu trefniadau gofal iechyd y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau presennol, sef Rheoliadau Gofal Iechyd (Trefniadau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir) (Ymadael â’r UE) 2019 ("Rheoliadau HEEASA"), a wneir mewn perthynas â darparu gofal iechyd cilyddol yng ngwladwriaethau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir, gan gynnwys gwneud taliadau. Mae’r Rheoliadau HEEASA hefyd yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi effaith i drefniadau gofal iechyd cilyddol gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE), Gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r Rheoliadau HIA yn debyg i'r Rheoliadau HEEASA i raddau helaeth, ond maent yn ehangu cwmpas y fframwaith cyfreithiol i gynnwys cytundebau gofal iechyd rhwng Llywodraeth y DU a gwledydd Gweddill y Byd. Mae'r Rheoliadau HIA yn:

- galluogi i daliadau gael eu gwneud yn unol â chytundeb gofal iechyd cilyddol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail y DU gyfan;
- galluogi i daliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn amgylchiadau eithriadol ar sail y DU gyfan;
- gorfodi gofyniad i roi effaith i rwymedigaethau ac ymrwymiadau'r DU o dan gytundebau gofal iechyd perthnasol, gan gynnwys prosesu swyddogaethau triniaeth mamolaeth a gynlluniwyd, ar Awdurdod Gwasanaethau Busnes GIG y DU (NHSBSA);
- gorfodi swyddogaethau gwybodaeth a chyngor ar NHSBSA;
- rhestru Gwledydd Gweddill y Byd sy'n rhan o gytundebau gofal iechyd rhyngwladol â'r DU;
- gorfodi swyddogaethau triniaeth a gynlluniwyd S2 ar GIG Lloegr, Byrddau Iechyd Lleol Cymru a byrddau iechyd yr Alban (hy, gwneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas â cheisiadau a phennu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau S2, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer proses adolygu).

Gellid gwneud rhai agweddau ar y Rheoliadau HIA yn gyfan neu'n rhannol drwy ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 2A o'r Ddeddf.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw mai yng Nghymru y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio, ond, ar yr achlysur hwn, rwyf wedi ystyried ei bod yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru.

Mae'r sefyllfa o ran cymhwysedd yn y maes hwn yn gymhleth. Er bod gan Weinidogion Cymru rywfaint o bŵer i wneud rheoliadau yn y maes hwn mewn perthynas â Chymru, mae'r fframwaith cyfreithiol sydd ar waith ar gyfer darparu gofal iechyd cilyddol wedi'i gydblethu hefyd ag agweddau nad ydynt o fewn cymhwysedd datganoledig. Felly, byddai rheoliadau Llywodraeth y DU a rheoliadau Cymru yn unig ar wahân yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd. Gan fod y maes hwn wedi'i gydblethu cymaint, rwyf o'r farn y byddai'n ddarbodus pennu'r fframwaith cyfreithiol yng Nghymru mewn un set o reoliadau, yn hytrach na rhannu hyn rhwng rheoliadau Cymru yn unig a Rheoliadau'r DU. Mae hyn hefyd yn golygu bod y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch, yn unol ag egwyddorion cyfraith dda.

Mae'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol amnewid a wneir gan y Rheoliadau HIA mewn perthynas â chyfundrefn y DU ar gyfer gofal iechyd cilyddol yn cadw'r status quo yn fras o dan y Rheoliadau HEEASA cyfredol. Golyga hyn y byddai'r ddarpariaeth y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei gwneud yn y Rheoliadau HIA mewn perthynas â Chymru ac mewn meysydd datganoledig yn cyfateb i'r ddarpariaeth y byddem ninnau yn ei gwneud mewn rheoliadau Cymru yn unig. Felly, ni fyddai'n niweidiol i'r safbwynt polisi yn y maes hwn pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y ddarpariaeth hon i Gymru. Nid yw'r dull gweithredu hwn ychwaith yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau i Gymru yn unig o dan adran 2A o'r Ddeddf yn y dyfodol.

Rhestrir gwledydd a gwmpesir gan Gytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol mewn Atodlen i'r Rheoliadau HIA. O ystyried bod Llywodraeth y DU am geisio cytundebau â nifer o wledydd yn y blynyddoedd sydd i ddod, a bydd angen diwygio'r Atodlen gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol bob tro y bydd gwledydd yn cael eu rhestru, rwy'n ystyried ei fod yn fwy ymarferol ac effeithlon bod Llywodraeth y DU yn gwneud y gwaith hwn ar ein rhan.

Nid yw'r dull yn y Rheoliadau HIA fel y'u drafftiwyd yn gwrthdaro â'r Rhaglen Lywodraethu nac ychwaith y Cytundeb Cydweithio.

Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
–
Health and Social Care Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
–
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

24 Ebrill 2023

Annwyl Peredur

Byrddau iechyd: cynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol

Yn ein cyfarfod ar 30 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad diweddar ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Mae gennym rai pryderon parhaus am berfformiad ariannol byrddau iechyd, a hoffem ofyn ichi ystyried cynnwys craffu ariannol ar fyrddau iechyd yn eich rhaglen waith.

Rydym wedi ystyried sefyllfa ariannol byrddau iechyd yn ystod ein gwaith craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24, gan gynnwys i ba raddau y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, h.y. eu dyletswyddau i reoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod treigl o dair blynedd; ac i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig dros gyfnod treigl o dair blynedd a gymeradwyir gan Weinidogion. Yn ystod tystiolaeth lafar ar y gyllideb ddrafft ym mhob blwyddyn, rydym wedi trafod y sefyllfa â'r Gweinidogion, gan gynnwys sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda byrddau iechyd ac yn eu cefnogi.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 yn awgrymu bod sefyllfa ariannol y byrddau iechyd wedi gwaethygu yn hytrach na gwella. Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael i lywio ein gwaith craffu, mae byrddau iechyd, gyda'i gilydd, yn nodi diffyg yn ystod y flwyddyn hyd yma o £98.6 miliwn a diffyg diwedd blwyddyn a ragwelir o £159.9 miliwn ar gyfer 2022-23. Bryd hynny, roedd chwech o'r saith bwrdd iechyd yn rhagweld gorwariant diwedd blwyddyn. Mae

Senedd Cymru
Welsh Parliament

hyn yn arbennig o bryderus gan fod dyraniadau i fyrddau iechyd yn gyfran sylweddol o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell:

> *"[D]ylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach ynghylch sut bydd yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cyflawni cynaliadwyedd ariannol a'r cydbwysedd o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2023-24 i 2025-26. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro."*

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn ei hymateb, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y "pwysau eithriadol" ar gyllid byrddau iechyd. Ni nododd amserlenni i bob bwrdd iechyd gyflawni cydbwysedd ariannol; yn hytrach, nododd na fyddai modd i'r "rhan fwyaf o fyrddau iechyd" gyflwyno cynllun tymor canolig integredig wedi'i fantoli ym mis Mawrth 2023. Ychwanegodd:

> *"Mae angen gwneud gwaith i gwmpasu a datblygu cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ac adfer sefydlogrwydd ariannol a'u rhoi ar waith. Gwneir hyn mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac uwch-swyddogion y GIG. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo."*

Nid ydym wedi ein sicrhau eto y bydd hyn yn ddigonol o ystyried y dirywiad a welsom a'r pwysau parhaus ar ein gwasanaethau iechyd. Mae gennym bryderon hefyd ynghylch lefel y capasiti sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth sydd ei angen. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe baech yn ystyried cynnwys craffu ariannol ar fyrddau iechyd yn eich rhaglen waith, gan gynnwys a yw byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru yn ymdrechu digon i adennill cynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol byrddau iechyd, ac a oes capasiti digonol ar gael ar gyfer hyn.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

2 Mai 2023

Annwyl Russell,

Craffu ar Fyrddau Iechyd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Ebrill.

Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith eich bod chi wedi dod â'r materion pwysig hyn i'n sylw. Mae byrddau iechyd yn cael symiau sylweddol o arian cyhoeddus, ac o'r herwydd mae'n hanfodol bod y Senedd yn craffu'n drylwyr arnynt er mwyn sicrhau gwerth am arian a defnydd priodol o adnoddau cyhoeddus.

Fel y gwyddoch, mae'r rhain yn faterion y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'u hystyried o'r blaen, yn fwyaf diweddar drwy ein gwaith craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Gwnaeth ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yr argymhelliad a ganlyn mewn perthynas â pherfformiad ariannol byrddau iechyd, a fydd o ddiddordeb i'ch Pwyllgor:

> *"**Argymhelliad 5**. Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:*
>
> - *Bod mesurau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'w gyllid dros y cyfnodau treigl o dair blynedd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014; a*
> - *lle mae Byrddau Iechyd Lleol yn gorwario mewn un flwyddyn, dylai'r rhain gael eu hariannu o gyllideb bresennol yr adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol."*

Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

> *"Mae Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yn cynnwys y cyfrifoldeb i bob Bwrdd Iechyd Lleol adennill costau dros gyfnod cyfrifyddu o dair blynedd a pharatoi cynlluniau i wneud hynny. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion yn monitro perfformiad yn rheolaidd o ran y ddyletswydd hon ac yn gweithredu mesurau uwchgyfeirio pan fo*

angen. Mae cyfrifon wedi'u harchwilio pob corff yn cynnwys adrodd am berfformiad o ran y cyfrifoldeb hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod pob Prif Grŵp Gwariant, pan fo'n bosibl, yn cwrdd ag unrhyw bwysau ariannol sy'n codi yn y flwyddyn, yn y lle cyntaf, o'u cyllidebau presennol. Pan nad yw hyn yn bosibl, neu pan wneir diwygiadau eraill i gyllidebau, byddwn yn cyhoeddi newidiadau yn unol â'n proses y cytunwyd arni ar gyfer cyllidebau atodol."

Yn ogystal â'r dull strategol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â chraffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, mae'n egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu bod pwyllgorau unigol yn parhau i graffu ar faterion ariannol sy'n dod o fewn eu cylchoedd gorchwyl.

Mae hyn wedi gweithio'n effeithiol yn ystod y Chweched Senedd hyd yma, gan alluogi pwyllgorau polisi i ymchwilio i feysydd penodol tra'n caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ddefnyddio dull lefel uchel ac ystyried cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru yn eu cyfanrwydd.

Byddwn felly yn parhau i fynd ar drywydd materion sydd o bwysigrwydd strategol fel y rhain fel rhan o'n rhaglen waith, yn enwedig yn ystod ein gwaith craffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft a Chyllideb Atodol Llywodraeth Cymru. Hyderaf y byddwch hefyd yn cynnal gwaith craffu ar fyrddau iechyd, yn ogystal â materion ariannol allweddol eraill yn eich cylch gorchwyl, pan ddaw'r amser.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon